



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Canllaw i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ar brosesau ymchwilio a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

## Canllaw i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ar brosesau ymchwilio a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru

### Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Fel myfyriwr gwaith cymdeithasol yn astudio ar raglen gradd gwaith cymdeithasol yng Nghymru, byddwch wedi cofrestru gyda ni.

Mae bod yn gofrestredig gyda ni yn golygu eich bod yn addas i ymarfer fel myfyriwr gwaith cymdeithasol, a'ch bod wedi cytuno i weithio i'r safonau a bennwyd yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*. Mae'n golygu hefyd, fodd bynnag, y gallwch gael eich cyfeirio atom ni os oes unrhyw bryderon ynghylch eich addasrwydd i fod yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol ac os ydych wedi methu â chynnal unrhyw rai o'r safonau yn y Côd.

I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru fel myfyriwr gyda ni, cyfeiriwch at y ddogfen: *Hanfodion Cofrestru i Fyfyrwyr*.

### Ymchwilio i'ch addasrwydd i ymarfer gan eich prifysgol

Os oes unrhyw bryderon yn ymwneud â'ch addasrwydd i fod yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, caiff y rhain eu hasesu a delir â nhw yn y lle cyntaf gan eich prifysgol.

Dylai unrhyw honiadau'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gael eu hasesu yn erbyn unrhyw safonau a bennwyd gan eich prifysgol, yn ychwanegol at y rheiny yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*.

Os ceir eich bod yn ddiffygiol yn erbyn y safonau hyn, dylai'r brifysgol roi camau ar waith i'ch helpu eu cyflawni.

Os nad yw eich ymarfer wedi gwella ar ôl dilyn unrhyw gyngor, canllawiau, hyfforddiant neu fesurau gallu, dylai'r brifysgol eich cyfeirio chi atom ni wedyn.

Mewn rhai amgylchiadau, dylai'r brifysgol eich cyfeirio atom ni'n uniongyrchol, ni waeth beth yw eu gweithdrefnau ymchwilio mewnol eu hunain. Er enghraifft, os ydych wedi cael eich gosod ar restr waharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu os ydych wedi'ch dyfarnu'n euog o drosedd.

Os yw eich prifysgol yn eich cyfeirio atom ni, efallai y byddwch am gael cyngor neu gynrychiolaeth broffesiynol neu gyfreithiol, er enghraifft gan Undeb Cenedlaethol y myfyrwyr (NUS) neu gymdeithas gweithwyr cymdeithasol Prydain, cyn i chi ymateb i unrhyw ohebiaeth gennym ni.



## Ymchwilio i'ch addaswydd i ymarfer

Pan dderbyniwn gyfeiriad yn ymwneud â chi, bydd un o'r swyddogion yn ein tîm addaswydd i ymarfer yn cael ei neilltuo i'ch achos chi. Y swyddog hwnnw fydd eich pwynt cysylltu yn ystod cyfnod yr ymchwiliad. Bydd y swyddog yn asesu p'un a yw'r wybodaeth yn briodol i ni ei hystyried a ph'un a yw neu a allai eich addaswydd i ymarfer fod yn amharedig ar sail un neu fwy o'r canlynol:

- ymarfer gwael neu berfformiad diffygiol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, achos o esgeuluster
- camymddygiad difrifol
- wedi'ch cynnwys ar y rhestr waharddedig a gedwir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael
- euogfarn neu rybuddiad yn y Deyrnas Unedig am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, pe bai wedi'i chyflawni yng Nghymru yn Lloegr, yn gyfystyr â throsedd.

Bydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw safon yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* yn cael ei ystyried wrth benderfynu p'un a yw eich addaswydd i ymarfer yn amharedig ar un neu fwy o'r seiliau a amlinellwyd uchod.

Gellir ystyried bod eich addaswydd i ymarfer yn amharedig yn yr amgylchiadau canlynol:

- p'un a oeddech chi ar y Gofrestr ar y pryd neu beidio
- tra'ch bod chi ar y campws neu ar leoliad ymarfer
- pan oeddech chi yng Nghymru neu du allan i Gymru.

Os ydym o'r farn nad yw'r honiad a wnaed yn eich erbyn yn briodol i ni ei ystyried, ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau pellach. Byddwn yn eich hysbysu chi a'ch prifysgol ynglŷn â'n penderfyniad.

Os ydym o'r farn fod yna sail i'r honiad yn eich erbyn, byddwn yn cynnal ein hymholiadau cychwynnol ein hunain. Bydd hyn yn cynnwys eich hysbysu chi a chynnig y cyfle i chi ymateb. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i unrhyw unigolyn arall neu gorff, megis eich prifysgol neu ddarparwr eich lleoliad ymarfer, am wybodaeth ychwanegol.

Ar ôl gwneud yr ymholiadau hyn, byddwn yn gwerthuso'r wybodaeth ac yn asesu lefel y risg er mwyn penderfynu p'un a oes posibilrwydd gwirioneddol o ganfod addaswydd i ymarfer amharedig. Byddwn yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol wedyn:



- cau'r achos – er enghraifft, lle'r ydym o'r farn fod eich prifysgol wedi delio'n ddigonol â'r mater
- cynnig rhybudd i chi rhwng chwe mis a thair blynedd, a fydd yn dangos ar y Gofrestr
- cynnig ymgymeriad i chi – er enghraifft, cwblhau hyfforddiant erbyn dyddiad penodol a fydd yn dangos ar y Gofrestr
- rhoi cyngor i chi – er enghraifft, y dylech atgoffa'ch hun o gynnwys y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*
- penderfynu fod angen ymchwilio ymhellach – er enghraifft, lle'r ydym o'r farn fod gwybodaeth/tystiolaeth annigonol ar gael ar hyn o bryd i alluogi gwneud penderfyniad ynglŷn ag ym mha ffordd i fwrw ymlaen â'ch achos
- anfon eich achos at banel gorchmynion interim, naill ai i'ch atal dros dro o'r Gofrestr neu i bennu amodau ar eich cofrestrriad, tra bod ein hymchwiliad yn mynd rhagddo
- anfon eich achos yn uniongyrchol at banel addasrwydd i ymarfer – er enghraifft, os ydych wedi derbyn rhybuddiad neu os ydych wedi cael eich dyfarnu'n euog o drosedd gan lys yn y DU neu yn rhywle arall, a phennwyd neu gellid fod wedi pennu dedfryd o garchar.

## Gorchmynion interim – yn eich atal dros dro o'r Gofrestr neu'n gosod amodau ar eich cofrestrriad

Yn ystod ein hymchwiliad, byddwn yn ystyried gorchmyn interim ar eich ymarfer os ydym o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd amdanoch yn dangos:

- y gallech beri risg i'r cyhoedd, cydweithwyr neu bobl sy'n derbyn gofal a chymorth
- bod hynny er budd y cyhoedd
- neu fod hynny er eich budd chi.

Mae dau fath o orchymyn interim y gellir eu rhoi ar waith wrth i ni gynnal ein hymchwiliad:

- 'gorchymyn atal interim' sy'n eich atal chi o'r Gofrestr (ac o'ch cwrs felly) am gyfnod penodol
- 'gorchymyn cofrestru amodol interim' sy'n pennu amodau interim ar eich cofrestrriad (ac a fydd yn effeithio ar eich cwrs felly) am gyfnod penodedig.

Bydd hyn yn digwydd mewn gwrandawriad y gallwch chi, a/neu'ch cynrychiolydd, ei fynychu. Cynhelir y gwrandawriad yn breifat, oni bai eich bod yn gofyn am iddo gael ei gynnal yn gyhoeddus. Gallwch roi tystiolaeth, a gellir galw ar dystion a'u croesholi.

Cewch eich hysbysu o benderfyniad y panel. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, a bydd y Gofrestr yn cael ei diweddarau i ddangos y penderfyniad a wnaed.



## Ein proses gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer

Cewch ond eich cyfeirio at banel addasrwydd i ymarfer pan fyddwn ni'n fodlon fod yna bosibilrwydd gwirioneddol y bydd y panel yn canfod bod eich addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu ac y byddai er budd y cyhoedd i wneud hynny.

Gan ddibynnu ar natur yr achos a'r materion a gytunwyd rhyngoch chi a ninnau, gall panel addasrwydd i ymarfer ystyried yr honiadau naill ai mewn gwrandawriad cyhoeddus neu mewn cyfarfod, lle na fydd yr un o'r ddau barti yn bresennol. Yn y ddwy sefyllfa, bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Fel rhan o'r broses cyn y gwrandawriad, cewch eich gwahodd i fynychu 'cyfarfod adolygu cyn-gwrandawriad'. Bydd y cyfarfod hwn yn trafod y gofynion a'r trefniadau ar gyfer y gwrandawriad ei hun. Bydd yn cynnwys trafodaeth a chytundeb ar faterion fel yr honiadau yn eich erbyn, unrhyw gyfaddefiadau y dymunwch eu gwneud, ac unrhyw dystion i alw arnynt, a'r dyddiad a'r lleoliad ar gyfer y gwrandawriad.

Yn yr wythnosau cyn y gwrandawriad, byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'r dogfennau a gyflwynir i'r panel, ac i gwblhau trefniadau'r gwrandawriad.

Gallwch chi, a/neu'ch cynrychiolydd, fynychu'r gwrandawriad a gallwch chi wneud penderfyniad ynghylch a hoffech roi tystiolaeth neu beidio. Gall unrhyw dystion y gelwir arnynt gael eu croesholi. Os bydd angen, gallwn wneud cais i Dribiwnlys Safonau Gofal i orfodi unigolyn i ymddangos gerbron un o'n paneli.

Gall panel addasrwydd i ymarfer wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- Lle mae panel yn canfod nad yw eich addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu:
  - peidio â chymryd unrhyw gamau pellach a chau'r achos
  - darparu cyngor
  - rhoi rhybudd
- Lle mae panel yn canfod bod eich addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu:
  - peidio â chymryd unrhyw gamau pellach a chau'r achos
  - rhoi rhybudd i chi
  - eich tynnu oddi ar y Gofrestr trwy gytundeb
  - pennu ymgymriad ar eich cofrestrriad
  - pennu gorchymyn cofrestru amodol ar eich cofrestrriad, er enghraifft, i ymgymryd â hyfforddiant penodol o fewn cyfnod penodedig
  - pennu gorchymyn atal, a fydd yn eich atal chi o'r Gofrestr a'ch cwrs am gyfnod amser penodedig





- eich tynnu oddi ar y Gofrestr – mae hyn yn golygu na fyddwch chi'n gallu parhau â'ch cwrs gradd gwaith cymdeithasol

Cewch eich hysbysu o benderfyniad y panel. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, a bydd y Gofrestr yn cael ei diweddarau i ddangos y penderfyniad a wnaed.

## Pa mor hir fydd y prosesau yn ei gymryd?

Mae pob achos yn wahanol, felly mae'n anodd rhoi llinell amser gywir o ran faint o amser a gymer i ni ymchwilio iddo, ac, os yw'n symud ymlaen drwy'r broses gwrandawiadau, mae'n anodd dweud pa mor hir fydd y broses honno. Mae hefyd yn dibynnu ar b'un a ydym wedi derbyn yr holl dystiolaeth ofynnol o'ch prifysgol, neu b'un a oes angen i ni aros hyd nes eu bod wedi cwblhau unrhyw ymchwiliad neu broses addaswydd i ymarfer.

O'r cyfeiriadau a wneir atom ni, dim ond nifer fach o gyfeiriadau (tua 12 y cant) sy'n cael eu cyfeirio at wrandawriad addaswydd i ymarfer terfynol. Mae mwyafrif y cyfeiriadau yn cael eu cau mewn cynadleddau achosion swyddogion ar ôl ymchwilio ymhellach neu gyda sancsiynau swyddogion.

Y graddfeydd amser cyfartalog ar gyfer cwblhau achosion yw:

- **derbyn honiad i gau achos yn y cam ymchwilio:** hyd at dri mis, ond mae hyn yn amrywio gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achos
- **derbyn honiad i gau achos mewn gwrandawriad addaswydd i ymarfer:** oddeutu chwe mis, eto gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achos. Bydd hyn yn cynnwys amser a gymerir i drefnu gwrandawriad, a all gymryd hyd at dri mis.

Gall achosion gymryd mwy o amser na'r graddfeydd amser uchod os ydym yn disgwyl am dystiolaeth oddi wrth, er enghraifft ymchwiliad diogelu neu ymchwiliad yr heddlu, neu am i drefniadau achos llys gael eu cwblhau.

## Rhoi gwybodaeth i chi

Bydd swyddog o'r tîm addaswydd i ymarfer yn rhoi gwybodaeth i chi am sut mae'r achos yn mynd rhagddo yn rheolaidd yn ystod y broses. Hefyd, gallwch gysylltu â ni unrhyw bryd i ofyn am ddiweddariad.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r wybodaeth uchod yn grynodedb o'r ymchwiliad a'r broses gwrandawiadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth a'r Rheolau sy'n llywodraethu'r prosesau hyn. Os ydych eisiau rhagor o fanylion, ewch i'n gwefan yn [gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru) .

## Cysylltu â ni

### Tîm addasrwydd i ymarfer

I gael gwybodaeth am ymchwiliad i achos, cysylltwch â'r:

Tîm addasrwydd i ymarfer: 029 2078 0545 neu [aiy@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:aiy@gofalcymdeithasol.cymru)

### Tîm gwrandawiadau

I gael gwybodaeth am wrandawriad ar achos, cysylltwch â'r:

Tîm gwrandawiadau: 029 2078 0505 neu [gwrandawiadau@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gwrandawiadau@gofalcymdeithasol.cymru)

Cyfeiriad: Gofal Cymdeithasol Cymru, South Gate House, Wood Street,  
Caerdydd CF10 1EW

Gwefan: [gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**